YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENHAF, 1900. [RHIF 151.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR JOHN JAMES.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

YR ydwyf wedi crybwyll y profion amlycaf a ddygir o'r Ysgrythyr i fyrhau a chyfyngu cariad Duw; ac yr ydym wedi gweled y cymer y geiriau a arferir i fygwth cosb byd arall ystyr derfynol, oblegid y maent oll yn cael eu harfer mewn ystyr derfynol tu hwnt i bob amheuaeth mewn rhai manau, ac o ganlyniad y cysylltiad a chysondeb yn unig a ddengys helaethrwydd eu harwyddocâd. Pan ddywedir fod Duw yn dragywyddol, y mae'r gair yn ddiderfyn yn helaethrwydd ei ystyr; ond pan ddywedir fod gwlad ac offeiriadaeth yn dragywyddol, ystyr gyfyng neu derfynol sydd i'r gair, ond ei fod yn arwyddo amser cymharol hir.

Yma gwnaf un sylw cyffredinol mewn perthynas i gosb byd arall, sef fod y gosb dragywyddol hono yn cael ei galw "llid a digofaint" (Rhuf. ii. 8). "Gwin digofaint Duw yn ddigymysg a dywalltwyd yn phiol ei lid ef" (Dat. xiv. 10). Ond yn awr mae'r Ysgrythyr mewn modd pendant yn dywedyd, "Nid byth yr ymryson Efe, ac nid byth y ceidw Efe Ei ddigofaint" (Salm ciii. 9). "A ddeil Efe Ei ddig byth?" (Jeremiah iii. 5). "Canys nid byth yr ymrysonaf, ac nid yn dragywydd y digiaf" (Esaiah lvii). "Ni ddeil Efe Ei ddig byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd" (Micah vii. 18). Gwelir mai digofaint Duw yw cosb y byd tragywyddol, ond nid yw Ei ddigofaint yn ddiderfyn. Gofynir, Onid yw pob peth a berthyn i Dduw yn ddiderfyn? Ydyw, ond nid oes ynddo lid ond mewn ystyr gyffelybiaethol, fel y dywedir fod ganddo ddwylaw, llygaid, clustiau, traed, &c.; ac nid yw Ei lid yn arwyddo dim ond Ei fod yn cosbi Ei blant drwg ac anufudd er eu lles. Mae trugaredd yr Arglwydd o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb. Daioni a chariad yw Ef Ei Hun, ac na thywyller y cyfryw briodoleddau gan syniadau cyfeiliornus am y Tad Anfeidrol.

Drachefn, Teyrnas Dduw yw teyrnas cyfiawnder, purdeb, a dedwyddwch; a phan y mae Ei Deyrnas yn myned rhag ei blaen, y mae

cyfiawnder a dedwyddwch yn lledu dros wyneb y ddaear; ac onid yw yr Arglwydd Iesu Grist yn ein dysgu i weddio, gan ddywedyd, "Deled Dy deyrnas"? ond ni ddaw hi byth os yw pechod a phoen i barhau yn ddiderfyn. Yr athrawiaeth o ddiddymdra nid yw gyson â chariad Duw; ond gadawaf y pwnc hyn yn bresenol, heb ddyweyd rhagor yn ei gylch.

IV. Effeithiau Adnabyddiaeth o Gariad Duw.

1. Y mae rhai yn dywedyd fod credu y bydd i holl gosbedigaethau Duw ddiweddu yn nychweliad a dedwyddwch y cosbedig yn anogaeth i ddynion i barhau mewn pechod. Ond pwy a wna'r fath sylw ar effeithiau drwg y gred hon? Ai y rhai a gredant fod poenau yn ddiddiwedd? Onid ydynt wedi cael digon o amser i foesoli'r byd â'r gred o boen di-ddiwedd? Onid yw'r gred hon yn gyffredinol er's canoedd o flynyddoedd? Onid yw wedi cael ei chefnogi gan fawrion a bychain, gan yr Eglwys Sefydledig, a chan yr Ymneillduwyr; ac a ydyw'r byd wedi cael ei foesoli? Ai nid poenau diddiwedd oedd cred yr holl erlidwyr a dywalltent waed eu cyd-ddynion? A fu neb o'r rhai a gredent yn anfeidroldeb cariad Duw yn erlidwyr? Onid o eisieu adnabod Duw yr oedd pawb yn erlid, ac nid o eisieu credu Ei fod yn cosbi yn ddiddiwedd? Ai o eisieu credu mewn poenau diddiwedd y mae'r lluaws yn pechu?

2. Y mae rhai yn tybied mai cyflwr mwyaf perffaith y Cristion yw ei fod yn credu y bydd ef yn gadwedig. Eto nid yw credu hyn yn un niwed iddo, meddant. Paham y byddai niwed yn bod pe byddai pawb yn meddu un gred?

3. Mor naturiol y byddai i ni garu ein gelynion pe credem eu bod yn cael eu caru gan Dduw, ac y byddwn ninau maes o law yn eu caru pan fyddant wedi cael eu gwneuthur yn gyfeillion.

4. Yr ydym yn caru Duw am Ei fod Ef yn ein caru ni; ond ni allwn wybod hyny heb gredu Ei fod yn caru pawb.

5. Pan yr ydym yn credu mai o gariad y mae Duw yn rhoddi gorchymynion yr ydym yn eu parchu, ond os nid o gariad yr ydym yn eu hofni.

6. Nid uffern iddynt eu hunain mae neb braidd yn ystyried lle poen diddiwedd, ond i'w gelynion. Gwnaent arswydo pe meddylient eu bod hwy eu hunain mewn perygl o fyned iddi.

7. Pe credai pechadur y bydd yn sicr o edifarhau am ei ddrwg, gwnai hyny ei atal rhag ei wneuthur. Sicrwydd cosb, nid ei maint, sydd fwyaf effeithiol.

8. Pan y credwn fod pob poen er lles, mae genym sail i obeithio am ddedwyddwch. I'r sawl y mae cariad yn cartrefu yn ei fynwes y mae nefoedd, ac ni all fod yn ddedwydd tra y mae yn gwybod fod ereill yn cael eu poeni yn ddiddiwedd.

9. Credu mai cariad yw Duw yn a thrwy'r cyfan a'n dwg ninau i'w garu Ef, i fod yn ufudd i'w ewyllys, ac i garu pawb o ddynolryw.

Y DIWEDD.

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan HIRFAEN RHYS.

X.

Gwyll y Nos a'r Seren Foreu.

PUR amlwg yw, ynte, i Ap Cynon fyned drwy, o leiaf, *un* chwyldröad bwysig yn ystod ei fywyd, a hyny mewn adeg foreu o'i hanes. Fel y dywed efe ei hun, "Y mae awr yn oes pob dyn, pan y deffry'r ysbrydol o'i fewn: weithiau mor naturiol a'r ffynon loew yn mynwes ddiffrwyth y bryn, ac weithiau gyda gwewyr Etna ruadwy, gan ddifa blodau bywyd am enyd, a llanw'r awyrgylch â chaddug tew a bygythiol." Ac yn gywir fel hyn yr ymffrwydrodd yr ymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd ysbrydol ei hun yn mynwes ieuanc ein harwr, pan nad oedd ef eto ond wedi prin adael cyfnod yr esgidiau pren a'r llodrau pen-lin.

"Wedi'r Dydd Barn hwnw," dywed mewn un ysgrif, "pan y tybiais yn sicr fod fy oriau wedi eu rhifo, a minau yn anmharod i'r amgylchiad dwys, penderfynais yn ddifefl ddysgu a chofio'r wers ddofn hono a lefarodd athrawes Anian wrthyf yn y brwyn ar lân yr afon; ei geiriau yn daranau croch, a'r fellten a'r cwmwl yn ysgrifell a memrwn yn ei dwylaw.

"Addunedais i mi fy hun na cheid fi yn anmharod fyth ond hyny; y Sul awn i'r 'cwrdd' a'r 'ysgol' yn ddiffael, a gwrandawn y pregethwr a'r athraw mewn astudrwydd di-wên.

"Pan ddelai amser gorphwys, nid awn byth i freichiau cwsg heb gyflwyno offrwm-weddi fèr i Luniwr fy mywyd, a Barnwr fy enaid. Ni ddywedwn air segur; a phob amser ufuddhawn i'r llythyren orchymynion fy mam a'm tad. Yr oedd fy nghydwybod yn gig noeth (gwae na fuasai heiyrn poeth fy mywyd heb ei serio gwedi hyn!) Gwnai ymwybyddiaeth o'r trosedd lleiaf yn erbyn un o orchymynion lleiaf y Gair fy nydd yn druenus a'm nos yn fagddu diorphwys.

"Unwaith yr oeddwn yn y 'cwrdd chwech' ar nos Sabbath; ac yn hytrach na cherdded adref yn syth drwy fy llwybr arferol hyd ael y bryn, cymerais ffordd arall, hirach, yn nghwmni amryw fechgyn a llancesau ieuainc ysgafn-fryd. Chwarddwyd yn iachus yr holl ffordd, a chafwyd cryn ddifyrwch yn nghwmni ein gilydd, er na fu dim rhyngom, cofier, yn rhagor na'r siarad gwag-felus hwnw a leinw gwpan ieuenctyd.

"Tydi, syrthiedig, erlidiedig Adda, er y nos hon, cydymdeimlaf yn llwyr â thi yn mriwiau gresynus dy gwymp boreuol. Minau hefyd a breswyliais Eden am enyd fèr, Eden o gwmni naturiol ac afresymol

felus; a'r gwaed gwridog, iachus, wrth ddawnsio'n ddystaw sidanaidd drwy y gwythienau ieuainc, yn gwneyd *byw* yn unig yn bleser! Y mae pleser neillduol mewn *byw*—o bydd yr iau yn iawn, ac yn *agos* ddigon o luniaeth ar y bwrdd—gellir chwerthin ar ben coronog fawrion y ddaear, a thaflu'r aur i'r pedwar gwynt fel y gwaelaf o lwch y tomenydd!

"Ond buan gadewais Eden ar ol, ac Ow! wele gleddyfau fflamllyd (O! maddeuer y rhyfyg) yn hongian megys wrth edafedd pryf copyn uwch fy mhen. Fflachiodd y ffaith mai y dydd Sabbath ydoedd fel mellten drwy fy meddwl; a'm cydwybod a ddeffrodd fel arthes gynddeiriog dan fy mron. Ar gymylau'r hwyr paentiai fy nheimladau euog y 'Cofia' byth-gofiadwy megys mewn llythyrenau o dân.

"Cyrhaeddais fy ngwely, estynais fy ngweddi fèr dros amser maith, a gruddfenais yn hir a digwsg hyd oriau mân y boreu; ac nid cyn i natur gwbl suddo dan y fflangell drom y llithrodd cwsg trugarog droswyf, gan fy lapio mewn rhyw fath o hûn gyffrous hyd oleu cysurol y dydd."

Druan ohonot, ein hen gyfaill anwyl, dedwyddach fai dy fywyd dithau oni bai—am beth? Y gydwybod deneu, dyner, adfyfyrgar—neu'r giau gor-fyw, tynion, a'r cyfansoddiad egwan, rhy dueddol i effeithiau pleser mawr neu boen mawr. Gwyn fyd y neb cryf a dideimlad, a'i gydwybod yn gorwedd yn dawel dan gymaint trwch o frasder nas dihuna yn hyd y bywyd hwn! Gwyn fyd hefyd y neb na ŵyr fwy oddiwrth ei *nervous system* na'r eidion a besgir yn mrasder dôl! Y mae yn ddilys genym fod Ap Cynon yn ddyoddefydd mawr oddiwrth y ddau beth uchod—ffynonellau llawer o'r trueni a gafodd yn ystod ei yrfa fèr.

Ond nad i ni gymeryd mantais o gysgod y Papyrau hyn i wyntyllu ein hopiniynau ein hunain; er y cyfaddefwn fod hyny weithiau yn brofedigaeth rhy gref i ni. Ni fedrasom osod llaw ar ddim o gysylltiad parhaol parthed i'r Papyr blaenorol; ond oddiwrth a gasglasom yma a thraw, rhoddwn at eu gilydd y brawddegau a ganlyn i ystyriaeth y darllenydd:—

"Yn ystod fèr fy oes, yr wyf wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau erefyddol. Dechreuais fy ngyrfa fel pob dyn arall yn bagan noeth—braidd nas dywedaf eilunaddolgar. Canys pa beth yw teganau ond eilunod ieuenctid?

"Bûm yn Babydd ofergoelus gwedi hyn, gan roddi gofal fy enaid yn ddigon cysurus yn nwylaw ereill; gan osod mwy pwys ar dynu fy hèt o flaen y bwrdd ciniaw na chyrchu ystenaid o ddwfr i fy mam; ac addoli cerfiad y pwlpud pren yn nghapel y Bryn yn hytrach na gwrandaw cynghorion y pregethwr i'r plant; gan ofalu am y Sabbath, a gadael i ddyddiau'r wythnos i ofalu am danynt eu hunain. Ond y mae i redfa meddwl dyn ei hegwyddorion, fel ag y mae i hanes cenedl; un ohonynt ydyw Deddf Gwrthweithiad. Y mae byw yn hir yn min y môr yn creu blinder ac awydd cymhesur am dawelwch y mynyddoedd.

"Y mae blwyddyn o ysgafnder pechadurus yn blino'r enaid, a

dyhea am burdeb a diniweidrwydd y dyddiau gynt—a gwyn fyd os y'u caffo!

"Y mae byw bywyd caethiwus, monachol, ar ddechreu oes yn fynych yn arwain i'r penrhyddid mwyaf afresymol yn nes yn mlaen mewn bywyd. A sylwaist erioed ar y plentyn yn dyfod allan o gaethiwed yr ysgoldy, a'i gapan yn y gwynt, a'i lais yn llawn o ynfydrwydd rhyddid disymwth.

"Eler i eithafion mewn unrhyw gyfeiriad, ac y mae'r dreiglyn (*pendulum*) can sicred o wrthweithio i'r eithafion arall ag ydyw'r gareg o syrthio i'r ddaear. Bûm i yn Babydd, felly aethum yn Buritan. Bûm yn Buritan, felly aethum yn *Atheist*. Bûm yn *Atheist*, ac aethum i gredu yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Pa beth ydwyf yn awr, nis gwn, pe bai hyny o bwys hefyd.

"Gwn mai profiad John Bunyan yn ngharchar, eithr ar raddfa lawer yn llai, a gefais i yn fy ngwely y nos Sabbath hono a dorais yn fy ieuenctid ffol. Rhydd y Pabydd ei enaid i ofal arall; ond y mae y Puritan yn haner gwallgofi wrth geisio gofalu am ei enaid direol; ac wele ef yn ymofyn gorphwysfa dragywyddol i'w enaid ei hun, heb fawr brisio pe llenwid y Gororau Isod âg ysbrydoedd ei gyfeillion mwyaf mynwesol. Wele ddau eithafion, a ymddangosant i mi y naill mor afresymol a'r llall. Rhaid fod y gwirionedd yn preswylio rhyw fan rhwng y ddau bwynt pell-wahanedig hyn; ond yn mha le? Yn y dyddiau hyn, y mae Atheistiaeth yn graddol golli tir, a Materoliaeth wedi llwyr lenwi a digoni dynion; ddoe yr oedd gwyddonwyr y byd yn feddw ar ddamcaniaeth newydd Darwin: heddyw y maent ychydig yn sobrach, ac y mae son am Darwin yn wrthwyneblyd gan rai ohonynt. Y mae Gwrthweithiad wedi cymeryd lle.

"Agnosticiaeth* ydyw crefydd 'dynion mawr' y dydd heddyw. Nis gwn i ddim, medd y dyn mwyaf gwybodus; a pheth arall, wyddost tithau ddim; ac ni ddaw dyn i wybod byth am y pethau sydd uwchlaw iddo. Bydd tiriogaeth yr Anwybyddadwy yn dywyll i feddwl meidrol am byth.

"Ond gwelaf eisoes wawr yn tori ar y caddug hwn, a'r un Haul ag a gododd ddwy fil o flynyddau'n ol yn anfon pelydrau addawol eto dros y gorwelion niwliog; y mae'r *deall* wedi blino yn chwilio ac yn gwadu Duw; daw'r galon i'w gorsedd yn y man; ac fel mai gwir y dywediad, 'Y teimla'r galon yr hyn nas gwêl y llygad,' felly hefyd gall ei bod yn wir fod teimladau'r galon yn gwybod mwy am Dduw nag ydyw *rheswm* a *deall* dyn.

"Pwy a ddirnad iaith y galon bur? Onis *gŵyr* calon meinwen pwy sydd yn ei charu oreu? Oni ŵyr calon plentyn *feddwl* ei fam? Oni theimla y golomen pa le y mae ei chartref pell, a hi a hêd yn syth tuag yno?

"Y mae mwy o bethau yn llechu yn nghalon dyn nag a freuddwydiodd athroniaeth am dano erioed. Nid yw athroniaeth wedi gosod

---

* Cofier fod Ap Cynon wedi ysgrifenu y geiriau hyn rai blynyddau yn ol.—H. R.

troed ar randir yr ysbrydol eto. Y mae *greddf* yn fynych yn ddyfnach na *deall*, os yn wir y gellir ystyried deall ar wahan i reddf. Onid greddf a'm dysga fod 2 a 3 yn gwneyd 5?

"Onid greddf ar *waith* ac yn tyfu ydyw rheswm? Ac onid rheswm wedi aros a chaledu, ac wedi myned yn rhan o natur dyn, megys ag y mae y ffosyl wedi myned yn rhan o'r gareg, ydyw greddf? Y mae nos y *Nis Gwn* yn cilio; mwyach daw gwawr *Mi Welaf* i erlid caddug y *Ni Welaf;* a chyfyd y frawddeg a lefarwyd ugain canrif yn ol megys seren foreu yn ffurfafen crefydd ac athroniaeth eto:—'*Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw.*'"

(Tw barhau.)

H. R.

CAPEL NEWYDD, PANTYDEFAID.

I GAPEL Pantydefaid—y newydd, nid yr hen—
Fe gar y galon ganu, mae'r awen ar ei gwên;
Yn gyrchfan y fforddolion mae'r lle er's llawer oes,
Lle dônt i wrando'r 'stori am Fethlehem a'r Groes.

Y werin o bum' ardal wahanol yma ddônt,
Ond o'r tu fewn i'r capel yn un ddeadell trônt;
Amrywiol, f'allai,'u barnau yn dyfod at y ddôr,
Er hyn yn un hwy blygant wrth orsedd-fainc yr Ior.

"Yr hen," medd rhyw addolwr, "a garwn i yn well;
Drwy ei ffenestri ganwaith fe welais y 'tir pell.'"
"Na, na, y capel newydd," medd ereill, "sydd o'r ddau
Yn oreu, canys ynddo yr hen sydd yn parhau."

Mae'r sail o hyd yn aros, ac erys cŷd a'r lle;
A'r hen oleuni eto yn tywys dyn i'r ne';
Os yw y muriau'n newydd, yr un y capel yw,
Yn ddolen gydiol pery byth rhwng y marw a'r byw.

Nid dinystr adnewyddiad; nid colli newid gwedd;
Bodolaeth newydd brofa pob dim a gwyd o'i fedd;
Y capel yma eto'n mhell draw yn hen a fydd;
Pan fyddo, caed ymddatod a chodi'n yr *hen* ffydd.

Dyffryn Cerdin. BEN DAVIES.

CYFLEUSDRA sydd heinyf i gilio, a diog i ddychwelyd.

CARMARTHEN COLLEGE.

BY favour of the Editor, who has admitted to his pages from time to time much interesting matter relating to Carmarthen students, I propose exhibiting in a few short papers all that I have been able to gather about the earlier Tutors of the Presbyterian College, beginning with William Evans, the first of the Carmarthen line. My authorities will usually be given in the notes; but well-known works like Beard's *Unitarianism*, Jeremy's *Presbyterian Fund*, Rees and Thomas's *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, Rees's *History of Protestant Noncorformity*, Jones's *Geiriadur*, Rowlands's *Biblography*, *The Dictionary of National Biographies*, *Enwogion Cymru*, and *Enwogion Ceredigion*, will not be cited except in special cases.

WALTER J. EVANS.

1. WILLIAM EVANS (1703-18).

William Evans received his ministerial training at Ystradwalter, near Llandovery, under the Rev. Rees Prydderch; and on the death of Stephen Hughes, the venerated "Apostle of Carmarthenshire," was ordained at Pencader in 1688. In 1703—some eighteen months, it may be supposed, after the accession of Queen Anne—he removed to Carmarthen to take charge of the Presbyterian church which then met in Priory Street, and to set up a "Public Academy." At this time, there was no recognised institution in Wales for the training of Dissenting Ministers. Samuel Jones, of Brynllywarch, had been dead since 1697, and Rees Prydderch since 1699, while Roger Griffith, of Abergavenny, the Tutor supported by the Presbyterian Board after Samuel Jones's death, had conformed in 1702, and Rice Price, of Bridgend [1673-1739], had either ceased to take pupils, or had lost favour with the Congregational Board, so that William Evans's adventure, filling a void as it did, met with very general acceptance. He kept the Academy at Carmarthen, together with a Grammar School,* for about fifteen years. The names of thirty of his pupils are known, but at this distance of time they cannot all be satisfactorily traced. Only one of them, [Nathaniel ?] Edwards, was supported by the Presbyterian Board (1708-11).

To the Priory Street church Mr. Evans added, in 1714, the care of Capel Seion (Llanddarog),† of which he was in truth the founder. He died in December, 1718.‡ He is said to have been a man of

---

* *Wallsall* (*Noah Jones*) *MS.*

† This church renewed its connection with the College in 1814, when Tutor D. L. Jones became its minister.

‡ Rees's *History*, p. 494. The other authorities are in error here; Mr. Evans's death is reported to the Presbyterian Board February 2nd, 1718-(9).

superior attainments as a scholar and divine, and to have devoted himself to his professional duties—in times of considerable difficulty and danger—with great diligence and fortitude. Dr. Daniel Williams, in bequeathing a legacy to him and his successors,* bears honourable testimony to the value of his work.

His publications were :—1. *Egwyddorion y Grefydd Gristionogawl, yn gynwysedig mewn Catecism Byr*, 1707 (a translation of a Presbyterian Catechism); 2. *Gemau Doethineb,*† *&c., gan Rhys Prydderch*, 1714 (Preface by W. E.); 3. *Catecism o'r 'Scrythyr, &c.*, 1717 (a translation of Matthew Henry's work).

2. Thomas Perrot (1719-33).

Thomas Perrot was a native of Llanybri (Carm.), and is variously described as a pupil of Roger Griffith, of Abergavenny; William Evans, of Carmarthen;‡ and James Owen, of Oswestry. He had possibly studied under all three. During 1706-13-(15), he had charge of the Presbyterian Church at Newmarket (Flint), to which he was ordained by Matthew Henry at Knutsford on August 6th, of the year first named;§ and during 1715-19 he was minister at Bromborough (Cheshire).‖ In 1719, he succeeded to William Evans's pulpit at Carmarthen, the congregation removing during his pastorate from Priory Street to Lammas Street (1726). He also had charge of the Academy, conducted it like his predecessor for about 15 years—until December 26th, 1733, when death terminated his labours.¶ He was reputed a man of extensive learning and excellent temper, but is characterised as a lax disciplinarian. The Walsall MS. credits him with 150 pupils, about half of whom were for the Established Church. Of the sixty Dissenters whose names are known, a considerable number remain untraced. Some of them must have wandered over the Welsh

---

* "I ordain . . . that Mr. William Evans of Carmarthen shall receive ten pounds per annum towards the support of such Welsh young men as are or shall be under his tuition, in order to preach the word of God in Wales; which I will shall be continued to such a one that shall undertake that work from time to time, after Mr. Evans quits it; my trustees and their successors approving such persons."—(Extract from the Will.) This legacy is now applied to the maintenance of Students' Bursaries, Dr. Williams's Trustees having increased the original £10 to £100.

† "One of the best uninspired books in the Welsh language . . It is worthy of notice that three of the most celebrated characters connected with the religion and religious literature of Wales have lived and died at or near the town of Llandovery, in three successive generations: Rees Prichard, Rees Prytherch, and William Williams. The *Sonys* of the first, the *Gems* of the second, and the *Hymns* of the third will live as long as the language of the Cymry."—*Rees's Hislory, p.* 287.

‡ Peter's *Hanes Crefydd*, p. 683.

§ Tong's *Matthew Henry*, p. 264.

‖ Urwick's *Cheshire*. p. 87.

¶ *Beirniad*, iii., p. 251.

border into counties that have not yet been dealt with by denominational historians.

Mr. Perrot's theology, though sometimes described as Calvinistic,* is regarded with suspicion by orthodox writers. It is certainly significant that the Newmarket congregation, which he first served, soon developed a progressive character, becoming to several Carmarthen students a stepping-stone to anti-Trinitarian congregations in England or Wales; that his Carmarthen congregation also passed gradually into Arianism, and that the heterodox tendencies of his pupils had become notorious long before his death.† If he is to be judged by the fruits of his teaching, he was the father of the Arminian movement in Wales.‡ He does not appear to have published anything.

Two of Mr. Perrot's nephews studied at the Academy. One of them, Thomas Perrot (1732-34), after pursuing a further course at Findern, under Dr. Latham, settled at Blakeney, and afterwards at Kingswood (Wilts). The other, Samuel Perrot (1753-57), who is known to have been the son of the Tutor's brother,§ the Rev. John Perrot, of Wooton-under-edge, ministered successively at Frome, Devizes, Yeovil, and Cork.||

---

* *Beard*, p. 204.

† Charles Winter was attracted to Perrot's Academy (Circ., 1724), in preference to Foskett's (Bristol), because the students at Carmarthen "were more at liberty to think and judge for themselves"—*Mon. Rep.*, 1806, *p.* 113. "Though I was but young at the time of Winter's admission," says Joshua Thomas, the historian of the Welsh Baptists, "I remember well the common talk among friends that Mr. Perrot's students inclined against the doctrines that were commonly preached by the Dissenters in Wales. . . . Some of them rejected the doctrine of Election," &c.—*p.* 185. *Cf. p.* 378. (*Edition*, 1885).

‡ *Cf.* Rees's *History*, p. 272: "Many, if not the majority, of his students became in course of time the open advocates of Arminian or rather Pelagian sentiments." Instances are Jenkin Jones, the founder of Llwynrhydowen; Samuel Thomas, Mr. Perrot's successor at Carmarthen; Charles Winter, the founder of the General Baptist church at Craigyfargoed; Francis Boult, the Arian minister at Wrexham, &c.

§ *Presbyterian Board Minutes. Murch* (p. 216) is in error here.

|| *Prot. Diss. Mag*, 1796, p. 400.

Y BEDD.

O LU'R byw, 'e hawlia'r bedd—bawb dynion,
O bob oed neu agwedd;
Geilw hwn y gwael ei wedd,
A rhodiwr ffyrdd anrhydedd.

Llanrhystyd. CLEDLYN.

YR ENETH AMDDIFAD.

AMDDIFAD ydwyf yn y byd, heb dyner dad a mam,
Na chwaer, na brawd, na cheraint pryd i'm gwylio rhag cael cam ;
Ffôdd fy nghysuron tua'r bedd yr adeg cleddid hwy,
A'm hunig gartref gwael, di-hedd, yw tlotdy llwm y plwy'.

Mae gweled y llancesau mad, oedd gyfoed gynt â mi,
Mewn rhyddid llawn a gwir fwynhad, bron tori'm calon i ;
Dyfalu ydwyf nos a dydd beth wnes o'i le erioed
I'm haeddu y fath dynged brudd, cyn cyrhaedd pymtheg oed.

Os medra'r byd â'i ddwylaw plwm gaethiwo'm corff yn dŷn
O fewn i furiau'r tlotdy llwm, mae mynydd uwch pob glyn ;
Ca'm henaid fyned maes o law i'r nef at 'mam a 'nhad,
Trwy lygaid ffydd 'rwy'n gweled draw ban fryniau'r hyfryd wlad.

BEN DAVIES.

CYMANFA GORAWL CEREDIGION.

AR y 20ain o Fai, cynaliodd Undodiaid Ceredigion eu nawfed Gymanfa Flynyddol yn Pantdefaid. Yr oedd yr hin yn hynod ffafriol, ac i'r cantorion, yn neillduol, dylasai yr olwg brydferth oedd ar natur fod yn ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith y dydd. Llewyrchai'r haul ei oleuni llachar i lawr nes dysgleiriai y perlau grisialaidd o wlith a wlychent fin y glaswellt megys gemau amryliw drudfawr, a chanai'r adar ar frig y llwyni ac yn yr wybren uwchben, fel pe buasent yn rhoddi hèr i'r lluoedd ymdyrent tuag at hen fangreoedd enwog y Llwyn a Phantdefaid.

Saif capel Pantdefaid mewn man cyfleus iawn i ranau isaf y sir, ac yr oedd y brodyr a'r chwiorydd ieuainc o'r ardaloedd yma wedi ymgynull yn niferoedd, ond gwelais ardaloedd ereill heb ond ychydig iawn i'w cynrychioli.

Yr arweinydd eleni oedd Mr. W. Hefin Williams, Llanbedr, cerddor profiadol, arweinydd gwych, a chyfansoddwr rhai o'r tonau mwyaf defnyddiol a feddwn. Y chwareuyddesau oeddent Miss Thomas, Green Park, Miss Evans a Miss Williams, Llanbedr.

Llywyddwyd yn y boreu gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yr hwn yn ei araeth ddestlus, o'r hon nid yw a ganlyn ond braslun, ddywedai:—"Nid oes dim yn llwyddo fel llwyddiant. Amlwg yw fod y Gymanfa yn llwyddiant, gan ei bod yn ei nawfed flwyddyn, a'r olwg arni yn gryf a hoenus; ond nid heb draul a gofal mae felly. Nid oes dim yn annibynol ar lafur dynol. Mae Duw yn gweithio, a gofynol yw i ninau wneyd yr un fath. Llongyfarchai y cantorion ar eu gwaith, a rhoddodd ddesgrifiad o'r amser pan y byddai un cerddor medrus yn myned oddiamgylch megys pregethwr teithiol, gan ddysgu y gwahanol gorau bychain oeddent yn wasgaredig ar hyd y wlad. Arwydda canu gwael fod yr eglwys yn gwywo. Ond nid canu yw'r cwbl, a gallwn ymffrostio yn ormodol yn ein caniadaeth. Dylai'r cantorion fod yn rheolaidd ac yn brydlon yn y gwasanaeth, ac mewn angladdau, ac yn ffyddlon yn yr Ysgol Sul, gan fod gwybodaeth Ysgrythyrol yr un mor bwysig a cherddoriaeth. Crefydd bersonol ac astudiaeth bersonol o'r Ysgrythyrau fydd o fendith i ni."

Dechreuwyd ar waith y Gymanfa trwy ganu "Bendith," "Munich," a "Myfanwy," a chafwyd anerchiad byr gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Yna canwyd y tônau canlynol:—"Newman," "Danville," "Mawl," "Bryniau Canaan," a'r anthem, "Dysg i mi Dy Ffordd" (T. D. Edwards). A chymeryd canu'r boreu fel cyfangorff, rhaid dyweyd ei fod yn anfoddhaol. Amlwg, oddiwrth yr atdyniad feddai'r rhagleni ar y cantorion, nad oedd y tônau na'r emynau wedi cael eu meistroli, er cymaint y pwys osodai yr arweinydd ar yr olaf.

Yn nghyfarfod y prydnawn llywyddwyd gan E. Evans, Ysw, Llandysul, un o hen gewri cerddorol yr ardal, yr hwn, wedi mynegi ei bleser o fod yn bresenol, a alwodd ar yr arweinydd at ei waith. Canwyd pedair o dônau o Raglen y Plant, gan y rhai bychain, mewn modd cymeradwy neillduol, a swynwyd y dorf â'u datganiad o "Da yw Duw," "Tyr'd i'r Ysgol Sul," "Cartref," a "Mordaith Bywyd." Nid wyf yn dyweyd fod y plant wedi cyrhaedd yn agos at berffeithrwydd, ond yr oedd yn y lleisiau ryw ffresder, ystwythder, a chydymdeimlad â syniadau'r darnau, fel nas gallai neb beidio eu cymeradwyo.

Cyflwynwyd deunaw o dystysgrifau i'r plant fu yn llwyddianus yn arholiad y Tonic Sol-ffa.

Yna canwyd "Gwŷr Philistia" (Jenkins), gan Gôr y Meibion, yr hwn oedd o dan yr anfantais o ganu gyda'r organ ac nid y berdoneg. Nid wyf am fod yn or-feirniadol, ond clywais well canu droion nag yn Nghymanfa Pantdefaid, a braidd yr wyf yn gweled y priodoldeb o ddewis darnau o'r un ansawdd, heb gael *rehearsals* iddynt yn arbenig. Yn nesaf caed y tônau canlynol:—"Aberystwyth," "Ffinant," "Llwyn," "St. Thomas," "Ambrose," a'r anthem eto, a dangosai y côr ragoriaeth neillduol ar ganu'r boreu. Canai'r cantorion yn fwy hyderus, yr oedd y cydbwysiad yn well, yr amser yn gywirach, y sylw gai yr arweinydd bron y peth ddylai fod, a'r effaith yn naturiol yn fwy dylanwadol ar y gwrandawyr.

Wedi talu'r diolchgarwch arferol, terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. T. A. Thomas. UN O'R CANTORION.

CYFARFODYDD Y "B A'R F. U. A." YN LLUNDAIN.

GAN i mi gael yr anrhydedd o fod yn gynrychiolydd dewisedig Cymdeithas Undodaidd Deheubarth Cymru i gyfarfodydd ein prif Gymdeithas, a gynaliwyd yn Llundain wythnos y Sulgwyn, a chan i'r ddyledswydd syrthio arnaf fel y byfryw i ateb dros Gymru, yn y giniaw a roddwyd i'r holl gynrychiolwyr, gan y llywydd, Mr. Charles Jones,* Y.H., Liverpool, daeth i'm meddwl y carech gael gair i'w osod yn y Cylchiolyn Undodaidd goreu sydd genym yn y Gymraeg. Nid hawdd mewn llythyr byr i osod ger bron yr argraffiadau a geir oddiwrth gyfres o gyfarfodydd crefyddol a chyfarfodydd busnes, tebyg i gyfarfodydd y "B a'r F. U. A." Un peth y rhaid i mi ochelyd, a hyny yw rhoi hanes manwl ohonynt; gall y sawl a fyno gael hyny yn y *Christian Life* a'r *Inquirer* am Mehefin 9fed. Ceir yn y blaenaf hefyd ddarluniau o Miss Marian Pritchard (Aunt Amy); Mr. S. S. Tayler; a'r Parch. C. J. Street, pregethwr y Gymdeithas. Yr wyf yn wastad yn teimlo mai un o bethau mwyaf pleserus cynulliadau o'r fath hyn yw'r cyfleusdra a geir i adnewyddu hen gyfeillachau, ac i ffurfio rhai newyddion; gwnaed darpariaeth ragorol i'r perwyl hyn gan y Gymdeithas, trwy drefnu i ni gael tê gyda'n gilydd bob prydnawn yn y *Council Room* yn Essex Hall.

Nid oedd y cynulliadau eleni mor lluosog ag arfer, oddigerth, efallai, y gwasanaeth crefyddol yn Unity Church, a'r *Conversazione;* yr oedd hyny i'w briodoli, wrth bob tebyg, i'r *Conference* a gynaliwyd mor ddiweddar yn Leicester, ac i'r *Bazaar;* yn anffodus hefyd, ni ellid llai na gweled eisieu presenoldeb cynorthwyol dynion o fath Stopford Brooke, R. A. Armstrong, a C. Hargrove.

Dydd Mawrth, yn y "*nick of time,*" trodd Mr. Bowie, Miss Marian Pritchard, a Mr. Ion Pritchard, i fyny, ar ol dychwelyd o Gyfarfodydd y Gymdeithas Americanaidd yn Boston, a chawsant dderbyniad gwresog a hawddgar. Yr oeddynt yn amlwg wedi cael 'stor werthfawr o ffresni awelon ozonaidd yr Atlantic oeddynt newydd groesi — ffresni y teimlwyd ei bresenoldeb yn neillduol yn y papyr rhagorol a ddarllenwyd gan Miss Pritchard, nos Fawrth, yn rhoddi "Cipdrem ar waith Ysgolion Sul America." Mewn cyfarfod diweddarach cafwyd anerchiad yn arddangos profiad helaeth ar waith Cenadol yn mhlith Undodiaid America, gan y Parch. J. T. Sunderland, yr hwn sydd wedi cymeryd gofal eglwys y diweddar Mr. Spears am ryw dymhor. I mi yr oedd yr anerchiad yn ddyddorol iawn, ac nis gallaf lai na meddwl fod ynddo foddion i gynyrchu ffrwyth da yn ein heglwysi, pe gwnelid ymdrech i gario allan ei awgrymiadau cyfoethog.

Yr wyf wedi teimlo er's llawer dydd mai un o angenion mwyaf ein heglwysi yw rhyw fath o *Guild*, neu Gymdeithas i'n pobl ieuainc, un a fyddai yn eu rhwymo yn nghyd i amcanion penodol crefydd. Un

* Yr oedd tadcu Mr. Jones yn Gymro glan gloew.

o'r pethau y mae arnom angen ei ddysgu yw, sut i gael ein pobl ieuainc i fyned rhagddynt ac i ymrwymo yn aelodau eglwysig, a theimlo dyddordeb yn ngwahanol ranau'r gwaith; ymddengys i mi eu bod i raddau wedi gorchfygu'r anhawsder hwn yn yr Amerig, drwy help y Gymdeithas sydd yn myned dan yr enw "The Young People's Religious Union," o'r hon y mae rhyw chwech neu saith ugain o gangenau mewn cysylltiad â'n heglwysi ni.

Un o arwyddion da'r amserau yw fod y pwnc hwn yn cael sylw difrifol Pwyllgor y "National Conference," ac yr wyf yn gobeithio y bydd ymgynghoriad y Pwyllgor hwn yn esgor ar ryw Undeb o'r fath yn y wlad hon ag a rydd gyfleusdra i'n pobl ieuainc ymglymu yn nghyd at ryw waith defnyddiol a hunanymwadol, ac mewn modd nad ydys eto wedi gweled ei gyffelyb yn ein heglwysi.

Byddai sefydliad o'r fath, yr wyf yn sicr, o fendith a lles nas gellir ei fesur i fywyd crefyddol ein pobl ieuainc, ac yn help i fwy o weithgarwch o blaid yr achos da.

Peth arall a dynodd fy sylw neillduol oedd hyn, y gwaith a gyflawnir, ac mor dda, gan rai o'r rhyw deg yn ein heglwysi. Dyna waith y *Postal Mission*, er engraifft, yr hwn sydd yn cael ei weithio bron yn hollol gan y menywod; ac yn y cyfarfod blynyddol yr oedd pob peth yn cael ei gario yn y blaen gyda'r fath ddifrifoldeb a rheoleiddiadra ag i beri syndod ac i enill cymeradwyaeth ac edmygedd pawb oedd yn bresenol. Yr oedd adroddiad Miss Hill, yr ysgrifenyddes, yn batrwn mewn bod yn eglur a chryno, yn wahanol iawn i'r adroddiadau meithion a gwasgarog a geir gan ambell i bwyllgor; ac felly yr wyf yn anturio dywedyd yn groew nad yw bellach y peth i wrandaw gormod ar awgrym yr hen fab gweddw hwnw a orchymynodd—"Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi."

Y mae ein gwragedd wedi dechreu llefaru, ac nid gyda sain anhynod, a chredwn pan fydd ein heglwysi wedi ymddeffro i'r sylweddoliad o'r gwaith mawr a ddichon menyw ei wneuthur, y byddant wedi agor ffynon o nerth dihysbydd na all lai na bod o les a bendith mawr i'r achos.

Yr oedd yn y cyfarfodydd ddwy o Barchedigesau o'r ochr draw i'r môr (Miss Florence Buck a Miss Marian Burdock), a buont yn llefaru; ac os oedd yr hyn a glywsom yn engraifft deg o'r hyn y mae'r boneddigesau yn arferol o draethu, y mae'r gwaith yn fy marn i yn sicr o fod mewn dwylaw galluog a theilwng.

Mewn rhai ystyriaethau yr oedd y cyfarfodydd i mi yn siom. Edrychaswn am ysbrydoliaeth a help oddiwrth yr Anerchiad ar y Cymundeb; ni chefais ond ychydig. Ar y dechreu cyffyrddwyd â'r tant iawn, ac yr oedd yn brydferth a swynol; ond pan ddygwyd i fewn yn ddiweddarach bynciau dadleugar Ymherodraeth a Masnach, tarawyd tant oedd yn ysgortsain annaturiol i'm teimlad i o'r peth y dylai fod, ac ni lwyddodd y geiriau syml a draddodwyd wedi hyny gan yr hybarch dad Brooke Hereford i symud ymaith yn llwyr y teimlad annymunol hwnw. Cefais fod amryw y bûm yn ymddyddan â hwy ar ol y gwasanaeth yn teimlo yr un fath a mi.

Yr oedd y Bregeth hefyd, a ddaeth ar ol, yn ymddangos i mi yn ddiffygiol yn y "rhywbeth hwnw" y mae dyn yn teimlo'r angen ohono yn well nag y mae yn medru ei ddesgrifio. Rhyfedd mor hoff ydym o wrteithio yr elfen ymosodol, ac mor barod i gymeryd arnom yr ysbryd clochdarus a ddengys ein rhagoriaeth anfeidrol ni ar bawb ereill—y mae'n ddigon i godi cyfog ar ddyn cyffredin. Fe'n gyrir yn fynych, mi wn, i sefyll ar ein hamddiffyniad, a chydnabyddaf yn rhwydd fod genym berffaith hawl i fod yn falch ar lawer o orchestion; ond eto y mae'n eithaf posibl i bwysfawru y pethau hyn yn ormodol, a'u gwneuthur yn graig rhwystr diangen; ac felly mi garwn i pe byddai rhai o'n pobl dda yn dysgu pwysfawru llai ar y pethau hyn, a gwrteithio ysbryd mwy mwyn a llednais, yr hwn, yn lle cynhyrfu marwor ymryson, a fyddai yn fwy tebyg o enynu tân ysbrydoliaeth.

Ag eithrio y pethau hyn, cefais y cyfarfodydd yn ffynonellau o les a budd, ac weithiau o ysbrydoliaeth.

Yn anffodus nid oedd yno ond ychydig o Gymru. Mr. Tudor Jones a minau oedd yr unig gynrychiolwyr. Edrychai y *Christian Life* yn ol ar y cyfarfodydd drwy yspectol las iawn; yr oedd yr *Inquirer* yn datgan fy nheimlad i yn fwy cywir pan y dywedai: "Y mae ein Cyfarfodydd Blynyddol wedi bod yn llawn o ddyddordeb, a phan y deuwn i'w hystyried yn dawel, ni gawn fod genym lawer o reswm i fod yn ddiolchgar, a rheswm mwy fyth i gadw ein golwg yn sefydlog yn y blaen, gyda'r penderfyniad i ddal gafael diysgog ar ein gwaith, fel y gallwn roddi gwasanaeth gwell yn y flwyddyn sydd yn dyfod."

Yn ddiolchgar i Gymdeithas Undodiaid Deheubarth Cymru am yr anrhydedd a wnaeth i mi drwy fy newis yn gynrychiolydd,

Ydwyf, yn rhwymau cariad brawdol,

Drenewydd-yn-Nottais,
Mehefin 18*fed*, 1900.

W. J. PHILLIPS.

TELWCH EICH DYLEDION.

'RWYF weithiau'n gallu canu cân,
Yn nghanol bythol bwytho,
Ac ambell gwsmer nerth ei geg
Yn rhegi ac yn rhwygo;
Ac ambell frawd yn dyweyd y drefn
Yn erchyll am ei ddillad,
A'r wisg sydd ganddo am ei gefn
I'r teiliwr heb un taliad.—ANAD.

Y DIWEDDAR DR. EDWARDS, Y BALA.

WELE un o gymwynaswyr goreu Cymru wedi ei osod yn ei ddystaw fedd! Ond, er hyn, nis gellir galw'r bedd, yn ei achos ef, yn dir anghof. Na, pan y daw ein cenedl i wybod yn gyflawn (yr hyn a fydd ryw ddydd), yr hyn a wnaeth efe drosti, bydd gan bob Cymro gwladgarol le cynes yn ei fynwes, yn yr hwn y trysora gydag anwyldeb a diolchgarwch y goffadwriaeth am dano ag y mae ei lafur yn ei haeddu. Nid yw na gwerth na helaethrwydd ei lafur dros Gymru hyd yma yn wybyddus ond i ychydig iawn. Yr oedd Dr. Edwards yn un o'r dosbarth hwnw a weithiant yn ddystaw a didwrw, ac nad ydynt yn dewis i bob gweithred o'r eiddynt i gael ei chyhoeddi trwy Gymru benbaladr. Ychydig yw nifer y dynion hyn. Mae dynion cyhoeddus yn gyffredin yn awyddus i gael yr oll a ddywedant ac a wnant wedi eu cyhoeddi yn hyglyw yn nghlywedigaeth eu cyd-ddynion, a rhaid i'r rhan fwyaf o'r dosbarth hwn wrth hyn, neu syrthio yn y diwedd i fedd dinodedd ac anghofusrwydd, yr hyn a ddygwydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Ond nid yw gwir fawredd byth yn ymwthio i sylw; yn hytrach, defnyddia'r dyn gwir fawr ei alluoedd yn ffyddlon a didwyll, a gwna'r gwaith ag y mae ei deimlad o ddyledswydd yn nodi allan iddo, ac yn galw arno i'w wneyd. I'r dosbarth hwn y perthynai y diweddar Dr. Edwards.

Nid fy mwriad yma yw galw sylw at waith ei fywyd yn gyffredinol, ond yn hytrach at un rhan ohono, a thalu fy nheyrnged anmherffaith o barch i'w goffadwriaeth am yr hyn a wnaeth. Fel pregethwr, fel duwinydd, ac fel ysgolhaig, safai yn ddiamheu yn y rheng flaenaf. Ac yr oedd hyn oll, yn nghyda'i gymeriad dysglaer, wedi enill iddo safle o ddylanwad na syrth i ran ond ychydig i'w enill. Dywedai cyfaill wrthyf yn ddiweddar (ac yntau hefyd yn Fethodist), mai Dr. Edwards oedd yr unig un yn Nghymru a fedrai, ar gyfrif ei safle a'i ddylanwad, gychwyn enwad crefyddol newydd yn Nghymru gydag unrhyw obaith am lwyddiant sylweddol. Cydnabyddai'r un cyfaill, hefyd, fod ei safle fel duwinydd ar y blaen i eiddo ei enwad yn gyffredin, ond fod ei ddylanwad, yn nghyda'r parch deimlid tuag ato, y fath, fel yr oedd codi cri yn ei erbyn yn anmhosibl. Mae darllenlad manwl o'i lyfr ar *Y Duw-Ddyn* yn rhoi i ni le i gredu fod rhyw gymaint o wirionedd yn y gosodiad a enwyd. Fodd bynag, sicr ydwyf mai nid yr hyn ydyw safle dduwinyddol yr awdwr yn y llyfr hwn oedd safle dduwinyddol yr enwad ychydig flynyddau yn ol, gan nad beth yw ei safle yn awr. Felly credaf, fodd bynag.

Daeth i gyffyrddiad â chyfran helaeth o'r genedl yn ei gymeriad fel duwinydd a phregethwr; ac yr oedd ei ddylanwad yn y ddau gylch hyn yn fawr. Ond yn ei gysylltiad â'r mudiad addysgol y daeth i gyffyrddiad â'r oll o'r genedl. Mae Cymru yn ddiau wedi magu cystal pregethwyr ag yntau, a llawer cystal duwinydd, ond nid oes yr un wedi rhoi ei holl fywyd (neu o leiaf y rhan oreu o'i fywyd), i

ddwyn Addysg Uwchraddol o fewn cyrhaedd y genedl mor llwyr ag y gwnaeth efe.

Heddyw y flwyddyn olaf o'r ganrif, medd Cymru oddeutu pedwar ugain o Ysgolion Canolraddol, tri Choleg Prifysgol, a Phrifysgol yn meddu'r gallu i roi graddau yn ngwahanol gangenau gwybodaeth. Deng mlynedd ar hugain yn ol nid oedd yr un ohonynt ar gael.

Mae hanes yr ymdrech hirfaith i sicrhau'r sefydliadau hyn yn un rhamantus i'r eithaf. Er pan ysgrifenwyd llythyr gan y diweddar Mr. B. T. Williams, unwaith A.S. dros Gaerfyrddin, yna Barnwr Llys Sirol, oddeutu deugain mlynedd yn ol, i alw sylw ei gydgenedl at angen Cymru yn hyn o beth, mae hanes y mudiad yn ffafr Addysg Ganolraddol ac Uwchraddol yn hanes ymdrech barhaus yn erbyn anhawsderau, ymgysegriad trwyadl i'r achos ar du ychydig o wladgarwyr, deffroad cenedl, ac yn y diwedd sylweddoliad o'r hyn oedd i lawer ar y dechreu yn freuddwyd anmhosibl.

Mae ysgrifenydd y llinellau hyn yn ddiweddar wedi cael achlysur i chwilio i fewn i hanes addysg yn Nghymru yn ystod y ganrif, gyda'r canlyniad fod yr hanes, o'r amser y cynelid ysgolion mewn tai nad oeddynt addas i un dyben arall, a chan ddynion na wyddent ond ychydig iawn eu hunain, hyd at sefydliad y gyfundrefn gyflawn bresenol o addysg, na cheir ei bath yn aml, yn ymddangos yn fwy tebyg i benod mewn ffugchwedl neu ramant, nag i gofnodiad o ffeithiau hanesyddol.

Agorwyd Coleg Aberystwyth yn 1872, ac ar yr adeg hon, pan apwyntiwyd ef yn benaeth ar y sefydliad newydd, y dechreuodd cysylltiad Dr. Edwards â'r mudiad addysgol; fodd bynag, yn y wedd fwyaf cyhoeddus ohono. Gwnaeth ereill (ychydig mewn nifer), lawer iawn o aberth er ei fwyn, yn neillduol felly rhyw ddwsin ellid eu henwi. Ond gellir anturio dyweyd na fyddai'r sefydliad wedi llwyddo i hwylio yn ddyogel trwy'r anhawsderau a'i cyfarfyddodd trwy'r deuddeg mlynedd cyntaf o'i fodolaeth, yn enwedig trwy'r ystorm a'i goddiweddodd pan drödd y Llywodraeth ei chefn arno yn ffafr y ddau Goleg arall, oni bai am ymdrechion diflino a dylanwad Dr. Edwards. Nid haeriad ar antur yw hwn, ond ffaith a gydnabyddir gan bawb sydd yn gwybod yr amgylchiadau. Ac am hyn edrychir arno a chedwir ei enw mewn cof parchus gan genedlaethau lawer o Gymru fel un o'r ychydig ddyniou ellir eu hystyried ei chymwynaswyr goreu.

Dysgwyliais y buasai rhywun mwy addas na mi yn ysgrifenu ar y pwnc hwn; ond gan na wnaeth neb hyn, gobeithio y gellwch hebgor ychydig o'ch gofod i hyn o linellau, er yn ddiweddar, gan

EDMYGYDD.

"UN dafn yn ngenau dyn doeth,
Yn union a'i try yn annoeth."—*T. ab Iolo.*

"OW: ffei son: fod proffes wŷr,
Ar led yn brif erlidwyr."—*Andreas o Fon.*

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOL SUL, 1900.

CYMERODD y pedwerydd Arholiad Blynyddol le nos Fercher, y 25ain o Ebrill, mewn naw o *centres* yn sir Aberteifi, a phedair yn sir Forganwg. Mae sir Forganwg yn well eleni na'r llynedd, a sir Aberteifi yn waeth. Nis gwn beth sydd i gyfrif am absenoldeb ysgolion Rhydygwin, Ciliau, a Llwynrhydowen eleni; yr oedd iddynt le anrhydeddus yn yr arholiadau blaenorol, a charem weled ysgolion ereill yn sir Forganwg yn parotoi y plant o leiaf gyferbyn a'r Arholiad.

Yn 1898, yr oedd rhif yr ymgeiswyr llwyddianus yn 265; 1899 yn 250, 1900 yn 239. A ydyw'r *down grade* hwn yn ddangoseg o'r dyddordeb gymerir genym fel enwad yn yr Ysgol Sul?

Gobeithio y gwna y rhai na wnaethant ddim eleni ychydig y flwyddyn nesaf, ac y gwna y rhai wnaeth yn dda eleni yn well y flwyddyn nesaf.

T. ARTHUR THOMAS,
Ysg. Adran yr Ysgol Sul.

CRIBYN.—ARHOLWR: PARCH E. E. JENKINS.

Cyfanswm, 26.

Safon I.—Dosbarth I.

Anne Davies, David Davies, John Evans, James Hughes, John Davies, John James Evans, Eben Davies.

Dosbarth II.

Joshua Evans.

Safon II.—Dosbarth I.

*Mary Howells, *Maggie Jones, *Owen Lloyd Jones, *Daniel Evans, Hannah Davies, Martha Evans, Rachel Evans, Jane Hughes, Anne Jones, John Daniel Jones, Rees Jones, Willie Davies, Daniel T. Jenkins.

Dosbarth II.

Daniel Rees.

Safon III.—Dosbarth I.

*Mary Anne Evans, *Mary Anne Thomas, *Anne Jones, *Elizabeth Davies.

Dynoda * eu bod wedi pasio gydag anrhydedd.

BWLCHYFADFA.—ARHOLWR: PARCH. ARTHUR THOMAS.

Cyfanswm, 23.

Safon I.—Dosbarth 1.

Lizzie Hannah Griffiths, Sarah Jones, Mary Jane Griffiths, Hannah Timothy, James Jones, David Thomas, David Davies.

Safon II.—Dosbarth I.

Enoch Evans, James Oliver Lewis, Johnny Thomas, Evan Tom Lewis, Anne Evans, Ellen Thomas, Ellen Davies, Mary Hannah Thomas, Elizabeth Thomas, Tom Richards.

Safon III.—Dosbarth I.

*Eliza Thomas, *Margaret Davies, *Dan Jones, *David Davies, Frances Jones, Sarah Davies.

GRAIG, LLANDYSUL.—ARHOLWR: PARCH. T. THOMAS, Y.H.

Cyfanswm, 18.

Safon I.—Dosbarth. I.

Margaret Jones, Sarah Lloyd, Mary Thomas, Anne Jones, Mary Lloyd, Alice Maud Jones, Gwladys Davies.

Safon III.—Dosbarth I.

Mally Evans, Tydfil James, Lizzie Jane Lloyd, Polly Lewis, Getta Evans, Rachel Davies, Johnny O. James, D. John Evans, Tom Evans, Cerdin Evans, Evan Lloyd.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—ARHOLWR: PARCH. J. HATHREN DAVIES.

Cyfanswm, 19.

Safon I.—Dosbarth I.

Maggie Mary Davies, Richard Davies, Myfanwy Lewis, William Thomas Davies, Alice Howells, Elizabeth Anne Morgan, Edith Griffiths, Albert Edward Howells, James Ifor Davies, Maggie Lloyd, Mary Maria Davies.

Safon III.—Dosbarth I.

Mrs. Mary Davies, Gwilym Griffiths, John Davies, David Davies (Bell Court), Jenkin Evans.

Dosbarth II.

Daniel Davies, Evan Griffith Howells, David Rees Davies.

CAPELYBRYN.—ARHOLWR: MR. D. J. DAVIES, B.A.

Cyfanswm, 14.

Safon I.—Dosbarth I.

Evan Davies, Dan Davies, *Tom Jones, David Jones, John James Evans, Hannah Evans, *Mary Price, *Maggie Jones, *Lizzie Thomas, *Mary Jones, Mary Anne Jenkins, *Jane Jones, *Sarah Lloyd (Sychbant), *Sarah Jane Richards (Sychbant).

CAPELYGROES.—ARHOLWR: PARCH. R. C. JONES.

Cyfanswm, 10.

Safon I.—Dosbarth I.

David Jones, Timothy Evans, Judith Mary Davies, James Davies, Margaret Ellen Evans, Hannah Williams.

Safon II.—Dosbarth I.

John Evans, Evan Evans, Hannah Howells, John Jones.

CAERONEN.—ARHOLWR: MR E. GWILYM EVANS, B.A.

Cyfanswm, 16.

Safon I.—Dosbarth I.

*Lizzie Davies, *Daniel Jenkin Thomas, David John Jones, Sarah Jane Evans, Violet Anne Evans, Rachel Mary Davies, Benjamin Rees, David Evans, Rees W. Rees, David Ll. Rees.

Safon II.—Dosbarth I.

*Lizzie Davies, *Daniel Jenkin Thomas, David John Jones.

Safon III.—Dosbarth I.

Anne Davies, Emma Davies, Mary Anne Davies.

ALLTYPLACA.—ARHOLWR: MR. J. ISLAN JONES.

Cyfanswm, 11.

Safon 1.—Dosbarth I.

John Jones, John Evans, Tom Walter Thomas, Lizzie Thomas, Sarah Thomas, Gwen Davies, Mary Griffiths, Anne Griffith, Hannah Evans, Anne Evans, Mary Evans.

DOWLAIS.—ARHOLWR: PARCH. J. HATHREN DAVIES.

Cyfanswm, 7.

Safon I.—Dosbarth I.

Hannah Evans, Blanche Jenkins, Nancy Jenkins, Oswald Evans, Eddie Jenkins.

Dosbarth II.

Ifor Evans, Nestor Price,

BRONDEIFI.—ARHOLWR: PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanswm, 16.

Safon I.—Dosbarth I.

Tom Davies, Tom Parry, *Tom Jones, David Davies, *Stanley Price, Elizabeth Davies, Florrie Jones, Mary Anne Evans, *Mary Evans.

Safon II.—Dosbarth I.

*David Jones, *Evan Walter Davies, Evan Nicholas, David Davies, Terwyn Davies, Arthur James Price.

Safon III.—Dosbarth I.

*Johnny Davies.

CEFNCOEDYCYMER.—ARHOLWR: PARCH. D. J. WILLIAMS.

Cyfanswm, 13.

Safon I.—Dosbarth I.

Dan Morgan, Richard Davies, Cledwyn Davies, Elizabeth A. Morgan, Johnnie Jones.

Dosbarth II.

Johnnie Harries, Sarah Morgan, Mary Jane Morgan, Bessie Williams, Morgan Lewis, Maggie A. Williams, Anne Lewis, Elizabeth Rees.

TREBANOS.—ARHOLWR: PARCH. J. HATHREN DAVIES.

Cyfanswm, 43.

Safon I.—Dosbarth I.

*Noah Lewis Davies, Maggie Bowen, Maud John, Maggie John, Hannah Lewis, David John Lewis, Daniel Bowen, Evan Morgan, Elizabeth Anne Morgan, Elizabeth Rees, William John Bowen, Margaret Jane Morgan.

Dosbarth II.

Harriet Morgan, Bessie Saunders, William John Bevan, Idris Williams, David Arthur Bowen, Morfydd Williams, Willie Lewis, Margaretta Bowen, William John Morgan.

Safon II.—Dosbarth I.

Jenkin Morgan, Lewis Morgan, Gomer Davies.

Dosbarth II.

Llywelyn Bowen, Evan Bevan, Rees Lewis, Rees Lewis, William D. Bowen.

Safon III.—Dosbarth I.

*Mary Bowen, *Margaret Davies, *Prosser Thomas, Henry Morgan, Rachel Anne Bowen.

Dosbarth II.

Ioan Davies, Mary Jones, Mary Davies, Mary Bowen, Elizabeth Bevan, John Bowen.

Safon IV.—Dosbarth II.

John Hopkins, Ben Davies, J. J. Williams.

HUMPHREY BROMLEY.

POB un at ei chwaeth, ys dywedai y dyn gynt wrth gusanu ei fuwch. Heddyw'r ffasiwn gyda llawer yw rhedeg ar ol y newyddiaduron, ac ymloddesta ar ryfel a thywallt gwaed; tra mae y cyfryw ymborth yn peri i mi deimlo yn glaf, dim ond meddwl am dano. Felly, er mwyn tipyn o newid, yr wyf yn cymeryd i fyny rai o hen gyfrolau yr YMOFYNYDD, lle y gallaf ymlwybro'n dawel a didwrw yn nghwmpeini dygwyddiadau y gorphenol pell. Yno y mae heddwch yn teyrnasu. Yn YMOFYNYDD 1890, tudal. 89, gwelaf yr enw sydd yn benawd i'r llinellau hyn, a pharant i mi gofio am hanesyn a glywais am dano pan oeddwn grwt. Pregethwr Wesleyaidd oedd Mr. Bromley, ffyddlon i'w alwedigaeth. Ryw dro daeth Undodwr ac yntau i gyd-gyfarfyddiad, a theimlodd awydd ar unwaith i ddychwelyd yr Undodwr o gyfeiliorni ei ffyrdd. Felly bu hir ddadleu, a dadleu gwresog. Rhoddodd yr Undodwr iddo draethodyn bychan i'w ddarllen. Yr oedd ar Bromley ei ofn, yn llythyrenol; er hyny, ni

fynai ddangos, ac fe'i dododd yn mhoced ei frest, ac addefai yn ddiweddarach ei fod yn ei deimlo megys tân yn llosgi ar ei groen. Wedi myned adref, ar ol dwys ystyriaeth, mentrodd ei ddarllen. Gallai ei ateb yn rhwydd. Darllenodd ef drachefn er mwyn trefnu ei atebion i gyfarfod â'i wrthwynebydd ; ond nid oedd yr atebion yn d'od mor rhwydd yr ail dro. Y mae yn ei ddarllen y drydedd waith, ac y mae'r atebion yn pallu d'od o gwbl ; ac ar ol hir oedi, a manwl a difrifol feddwl ac ystyried, y mae yn gorfod gwynebu y ffaith, er ei fod wedi esgyn ei Spion Kop yn frysiog, fod yn rhaid iddo ddisgyn, nad pa mor araf, a chyffesu y ffaith annysgwyliadwy ei fod yntau yn awr yn Undodwr !

R. J. J.

MANION AC HANESION.

CILIAU AERON.—Cynaliwyd Cymanfa Ysgolion Cwmsychbant, Capelybryn, Cribyn, Rhydygwin, a Chiliau, yn y lle uchod, dydd Mercher, y 13eg o Fehefin. Yr oedd y tywydd yn deg a dymunol, a daeth lluaws mawr yn nghyd, ac yr oedd y cyfeillion yn Nghiliau wedi darparu yn helaeth iawn ar gyfer rhoi lluniaeth i'r holl ysgolion, ac y maent am hyn yn haeddu diolchgarwch.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Bu gwledd hyfryd o dê a bara brith i'r plant yma y Llungwyn, ar fynydd banog Gellionen. Diolchir yn gynes i'r boneddigesau ieuainc am wasanaethu wrth y byrddau mor ddeheuig, ac i bob gŵr a gwas, a phob merch a gwraig yr un modd. Wedi cwblhau y tê, rhoddwyd *sports* i'r plant, a gellir dyweyd gyda phriodoldeb, i'r cyfan basio heibio heb ormod o'r daearoldeb hwnw fod yn nglŷn â dim. Hefyd, dringodd Seindorf Arian Trebanos i ben y mynydd i chwareu darnau o gerddoriaeth felus a swynol, wedi bod mewn dau le yn flaenorol ; cystadlu yn Treforis, a d'od allan yn ail oreu ; a chwareu o flaen Ysgol Sul Calfaria, Clydach. Yn sicr, maent yn deilwng o barch mawr am eu ffyddlondeb taer. Bydd y tê blynyddol eto cyn hir, a gobeithiwn y bydd pob un yn barod i wneyd gwaith helaeth. er cael yr wyl flynyddol i dalu ffordd, fel yn y gorphenol. De'wch yn lluoedd.

CEFNCOED. — Cynaliodd yr eglwys hon ei gwyl dê flynyddol ar ddydd Llun. Mai 28ain, yn nghanol tywydd tesog, hafaidd. Fel arfer, daeth nifer fawr yn nghyd o bell ac agos, a threuliwyd y prydnawn mewn ymgyfeillach siriol.

MARWGOFION.

MAI 8fed, yn 35 mlwydd oed, Letitia Jones, unig ferch Mrs. Sarah Davies, Froganol, Llanfihangel Ystrad. Bu farw yn Pisgah, lle yr oedd ar wasanaeth, ar ol cystudd byr ond poenus iawn. Claddwyd, yn ol ei dymuniad, yn Mynwent Capelybryn ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, yn absenoldeb gweinidog Mydroilyn, lle y buasai yn aelod ffyddlon.

MAI 16eg, ar ol misoedd o gystudd, yn 63 mlwydd oed, Margaret Jones, Cwmfeithgen, gan adael un mab, ei hunig blentyn, i alaru ar ei hol. Claddwyd hi yn Mynwent Capelybryn, pan y cyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y gweinidog. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o'r eglwys uchod, ac yn un a arweiniodd fywyd tawel a diniwed iawn.

MAI 16eg, ar ol mwy na deuddeg mis o gystudd, yn 38 mlwydd oed, Mrs. Jane Price, Brynhogfaen, Llanwenog, gan adael dwy ferch fechan yn amddifaid o dad a mam i alaru yn ddwys ar ei hol. Bu y tad farw ddechreu Awst diweddaf, wedi blynyddoedd o gystudd; ac yr oedd y clefyd angeuol wedi gafaelu yn ei briod amryw fisoedd cyn ei ymadawiad ef. Wele y ddau yn awr wedi ail-gyfarfod yn y wlad lle na ddywed neb "Claf ydwyf," a lle na bydd ymadael mwy. Yr oedd Mrs. Price drwy ei hoes fêr wedi bod yn arddangosiad prydferth o'r rhinweddau Cristionogol. Diwyd gyda ei gorchwylion, tyner a charuaidd i'w phriod a'i phlant, a chymwynasgar i'w holl gymydogion, ac yn aelod ffyddlon o Eglwys Dduw. Tad yr amddifaid daeno Ei aden raglun-iaethol dros ei dwy ferch fechan.

MAI 21ain, yn 33 mlwydd oed, George Saunders, Graig, Trebanos, wedi cystudd byr o bum' niwrnod. Bu ei farwolaeth sydyn yn achos o ddifrifoldeb a sobrwydd nas gellir yn hawdd iawn ei anghofio. Mae amgylchiadau sydyn o'r fath hyn yn alluog i brofi tuhwnt i amheuaeth fod bywyd y dyn hoenusaf yn ansicr ac ansefydlog. Yr oedd ein cyfaill ymadawedig ychydig amser yn ol yn rhodio oddiamgylch yn heinyf, gan daflu mil a mwy o gysuron i fwrdd ei deulu llon; ond heddyw, wedi huno yn y tragywyddoldeb dystaw, heb ond megys mynyd fêr o rybudd. Gyfeillion ieuainc, ai ni ddylai hyn ein dihuno o'n cysgadrwydd a'n difaterwch? Dylai, yn sicr! Dyma le gwâg eto yn y tŷ, ac yn y capel, a llawer man arall yr arferai ein brawd caredig dd'od iddo. Claddwyd ei weddillion daearol yr Iau dilynol wrth Gellionen, tra nifer fawr o bobl yn colli dagrau lâwer. Gweinyddodd ei weinidog yn barchus a thyner yn yr angladd, y Parch. T. J. Jenkins.—Hefyd, ehododd ysbryd baban lleiaf i'r ymadawedig ychydig oriau ar ol ei dad, a gosodwyd hwynt i gydorwedd yn yr un arch hyd wawr burach. Ymorphwysed y weddw a'r plant i gyd dan nodded eu Tad Nefol.

MAI 21ain, Rachel Jones, Cwmann Tavern, ger Llanbedr, yn 63 mlwydd oed. Yr oedd Mrs. Jones o leiaf ei's blynyddau o ran ei chorff yn wan ac eiddilaidd, ond o ran ei hysbryd yn siriol a chalonog, ac fe fu hyn yn aml yn gymhorth nid bychan iddi ei hunan, ac i'w phriod a'i phlant, i wynebu a myned drwy lawer i ystorm a ddaeth i'w cyfarfod ar eu taith yn y byd; a phan y mae un o'r fath yma yn cael ei chymeryd i ffwrdd, pwy all gyfrif y golled i deulu, ond gŵyr pawb ei fod yn fawr ac anadferadwy. Cafodd ei symud heb ond ychydig ddyddiau o gystudd, ac yn hollol annysgwyliadwy. Yr oedd llawer i aelod o'r teulu lluosog wedi ei blaenu, ond gadawodd mewn dwfn alar ar ei hol briod a phump o blant ac ŵyrion, heblaw lluaws mawr o berthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd, daeth torf hynod luosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr trallodus. Claddwyd ei gweddillion yn Mynwent Aberduar, a gwssanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones. yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. Davies a H. James (B.).

MAI 22ain, o'r darfodedigaeth, Rachel Davies, Maestroiddyn, Caio, yn 18 mlwydd oed Gadawodd mewn galar dwfn ar ei hol fam, brodyr, a chwiorydd, a pherthynasau ereill lawer. Ar ddydd ei hangladd, daeth torf luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i'r bedd yn Mynwent Caeronen, Cellan. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan weinidog y Methodistiaid, ac yn y capel gan weinidog y lle.

MAI 23ain, wedi cystudd byr, yn 77 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Davies, anwyl briod Mr. John Davies, Abercwm, Llanllwni, a diacon hynaf eglwys Alltyplaca. Claddwyd hi yn Mynwent Capelygroes, a gwasanaethwyd ar yr achlysur difrifol gan y Parch. J. Davies, ei gweinidog, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Evans a T. Thomas, Y.H. Yr oedd Mrs. Davies wedi mwynhau iechyd da hyd o fewn ychydig flynyddoedd i'r terfyn; ac yr oedd hyny wedi bod yn help mawr iddi i fod o gymaint o

ddefnyddioldeb yn y cylch mawr yr oedd ynddo. Bu yn fam i dri-ar-ddeg o blant, a chafodd y fraint o weled deuddeg ohonynt yn tyfu i addfedrwydd oedran, ac yn llanw lleoedd pwysig yn y byd. Nodweddion arbenig Mrs. Davies oeddynt diwydrwydd a medrgyda'i gorchwylion, gofal a thynerwch am ei phlant a'i phriod, haelioni yn mhell tuhwnt i'r cyffredin i'r tlawd a'r angenog, ffyddlondeb difwlch gydag achos Iesu Grist, a'r gras mawr i ddwyn goleuni haul gyda hi lle bynag yr elai. Pan oedd yr orymdaith yn myned yn araf tua'r gladdfa, cyfarfu crwydryn ar y ffordd, a llwyddodd i daflu tusw o flodau ar y coffin, fel arwydd o ddiolchgarwch am lawer cardod oedd wedi dderbyn o'r llaw haelionus hono. Nerthed y Tad goreu ei phriod oedranus a'i phlant cariadus i ymdawelu o dan y brofedigaeth chwerw.

Mai 29ain, o'r darfodedigaeth, Thomas Edwards, Cwmcanol, Llancrwys, yn 33 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn cael ei ystyried yn ddyn ieuanc o ymarweddiad hynod o deilwng, ac iddo air da gan ei gydnabod—a'r rhai oedd yn ei adnabod oreu oedd yn ei barchu fwyaf. Gadawodd yntau i alaru ar ei ol fam, ac amryw frodyr a chwiorydd, a pherthynasau ereill. Ar ddydd ei angladd, daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng ei weddillion i fedd yn Mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Mai 30ain, James Davies, 6, Penrhys Road, Tylorstown. Claddwyd ef y Llun canlynol yn Nghladdfa Gyhoeddus Llethrddu, Trealaw. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rees, Pentre; ac ar lan y bedd gan y Parchn. D. Rees, a Dr. Griffiths, Pontypridd. Yn mhlith y galarwyr, sylwasom ar Mr. J. Davies, Maeshedydd, Llandysul, a Misses Davies, Salisbury Road, Caerdydd, brawd a chwiorydd yr ymadawedig. Er gwaethaf atdyniadau ereill ar ddydd gwyl. daeth lluaws mawr o gymydogion a chyfeillion o bell ac agos i hebrwng yr hen babell y bu James Davies yn trigo ynddi am 61 o flynyddau i'w gorweddfan olaf. Brodor oedd o Geredigion. Ganwyd ef yn Llwyncelyn Bach, plwyf Gwenog. Symudodd i Forganwg tua deunaw mlynedd yn ol, ac ymsefydlodd yn Tylorstown, lle y bu ef a'i deulu yn trigo byth oddiar hyny. Y mae yn golled ddirfawr i'r Genadaeth Undodaidd yn Tylorstown, ac i'r achos yn gyffredin yn y Rhondda, fod y brawd wedi ei symud. Bu yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau ar hyd y blynyddau. Cerddodd y chwe' milldir—yn ol a blaen—yn gyson, ffyddlawn, a chalonog i'r gwasanaeth yn nghapel y Pentre o'i gychwyniad hyd ddechreu pregethu yn Tylorstown Mae ei esiampl yn wir werth i lawer ohonom ei hefelychu. Gallaf adseinio geiriau Dr. Griffiths yn yr angladd: "Y mae yn golled fawr i ni, enwad bychan, i golli neb pwy bynag; ond y mae colli brawd oedd mor ffyddlon a James Davies yn anhraethol fwy." Gorphwysed tangnefedd Duw ar ei weddw a'i blant sydd mewn galar.

Mehefin 3ydd, wedi cystudd byr iawn, yn 89 mlwydd oed, Rachel Evans, Penrhiw, Pencareg. Claddwyd yn nghladdfa y teulu, yn Mynwent Llanwnen. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y tŷ gan ei gweinidog, y Parch. J. Davies. Yr oedd yr hen chwaer hon, meddir, wedi bod yn weddw am y tymhor maith o driugain mlynedd. Bu bron am ei hoes yn aelod o'r eglwys yn Alltyplaca; ac er fod ganddi bellder mawr i ddyfod i'r addoliad, anfynych iawn y gwelid ei lle yn wâg hyd nes y methodd yn lan. Duw yn Ei ras a godo eto rai o gyffelyb ffyddlondeb i hyrwyddo Ei waith yn y byd.

Mehefin 14eg, yn 31 mlwydd oed, Sarah, anwyl ferch Mr James Jones, Caerau, Llanwenog. Claddwyd hi y Llun canlynol yn nghladdfa y teulu yn Mynwent Pantydefaid; a gwasanaethwyd ar yr achlysur, i glywedigaeth tyrfa luosog, gan y Parch. J. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. T. A. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn gwaelu er's misoedd, ond parhaodd i ddyfod o'r gwely bob dydd hyd y diweddaf, pan y daeth y cyfnewidiad rhyfedd yn annysgwyliadwy, ac yr ehedodd ei hysbryd at Dduw. Yr oedd yn aelod hardd o'r eglwys yn Capelybryn, ac yn barchus iawn gan y rhai a'i hadwaenent oreu. Boed i'r tad, y brodyr, a'r chwiorydd i alaru yn gymedrol ar ol un mor gu ac anwyl.

Argraffwyd gan Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr.